



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Asiantaeth
Safonau
Bwyd
food.gov.uk

MAE'N DOD YN HAWS
ADNABOD HYLENDID
BWYD DA YNG NGHYMRU



Y CYNLLUN SGORIO HYLENDID BWYD

Daeth Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a rheoliadau cysylltiedig i rym ym mis Tachwedd 2013. Mae'r Ddeddf yn sefydlu cynllun sgorio hylendid bwyd gorfodol i Gymru sy'n disodli'r cynllun a gafodd ei weithredu gan awdurdodau lleol a'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn flaenorol. Diben y cynllun yw helpu defnyddwyr i ddewis ble i fwyta neu siopa am fwyd drwy roi gwybodaeth iddynt am safonau hylendid mewn bwytai, tafarndai, caffis, siopau tecawê, gwestai ac ati, yn ogystal ag archfarchnadoedd a siopau bwyd eraill. Pan fydd busnes bwyd newydd yn agor, mae'n debygol y bydd yn dod o dan gwmpas y cynllun.

Caiff busnesau bwyd 'masnachwr i fasnachwr' (fel gweithgynhyrchwyr bwyd a chyfanwerthwyr) eu cynnwys o fewn cwmpas Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013. Mae busnesau sy'n cyflenwi bwyd i fusnesau eraill, ac sy'n cael eu harolygu gan eu hawdurdodau lleol, yn cael sgôr hylendid bwyd hefyd.

Ers mis Tachwedd 2016, mae hi'n ofynnol i siopau tecawê yng Nghymru gynnwys datganiad dwyieithog ar daflenni hyrwyddo fel bwydlenni tecawê sy'n dweud wrth ddefnyddwyr ble y gallant ddod o hyd i sgoriau hylendid bwyd ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd –

food.gov.uk/sgoriau



SGORIAU

Caiff y safonau hylendid a ganfyddir adeg yr arolygiad eu sgorio ar raddfa o '0' ar y gwaelod, sy'n golygu bod angen gwella ar frys, i '5' ar y brig, sy'n golygu bod y safonau hylendid yn dda iawn.

Mae'r sgôr a roddir i chi yn dangos pa mor dda y mae'ch busnes chi yn cydymffurfio â chyfraith hylendid bwyd.

Er mwyn cael y sgôr uchaf o '5', mae'n rhaid i fusnesau ddangos eu bod yn cydymffurfio â thair elfen yr arolygiad, a hynny i safon uchel iawn (gweler isod).

AROLYGIADAU

Wrth gynnal arolygiad hylendid bwyd, bydd swyddog yn ystyried yr elfennau canlynol a fydd yn cael eu defnyddio i bennu sgôr hylendid bwyd y busnes:

- **hylendid** – sut mae'r bwyd yn cael ei baratoi, ei goginio, ei ailgynhesu, ei oeri a'i storio
- **cyflwr strwythur yr adeiladau** – gan gynnwys glanweithdra, cynllun, goleuadau, system awyru a chyfleusterau eraill
- **sut mae diogelwch bwyd o fewn y busnes yn cael ei reoli** a sut mae'r busnes yn cofnodi'r hyn y mae'n ei wneud i sicrhau bod bwyd yn ddiogel

Pan fydd busnes newydd yn cofrestru gyda'r awdurdod lleol, bydd yn destun arolygiad hylendid bwyd.

Yn dilyn arolygiad, mae'n rhaid i swyddogion diogelwch bwyd roi gwybod i chi beth yw eich sgôr ac, os nad ydych yn cael y sgôr uchaf, pa welliannau sydd gofyn i chi eu rhoi ar waith i

gael y sgôr honno. Byddwch yn cael yr wybodaeth hon mewn llythyr sy'n cynnwys adroddiad o'r arolygiad, ynghyd â'ch sticer hylendid bwyd.

Ar ôl i chi gael eich hysbysu am eich sgôr, ac ar ôl i'r cyfnod apelio ddog i ben (21 diwrnod ar ôl i chi gael eich hysbysu), bydd eich sgôr yn cael ei chyhoeddi ar wefan y cynllun:

food.gov.uk/sgoriau

Ers mis Tachwedd 2014, mae gwybodaeth ychwanegol sy'n rhoi dadansoddiad o sgôr bob busnes hefyd wedi'i chyhoeddi ar wefan yr ASB. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys datganiad sy'n egluro y gall aelodau'r cyhoedd ofyn am gopi o adroddiad arolygu'r busnes gan yr awdurdod lleol.

ARDDANGOS

Ar ôl i chi gael gwybod beth yw eich sgôr, mae'n rhaid i chi arddangos y sticer a ddarparwyd gan eich awdurdod lleol. Bydd gofyn i chi wneud hyn 21 diwrnod o'r dyddiad y cawssoch eich hysbysu (dyma faint o amser sydd gennych i apelio).

Mae'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i chi arddangos y sticer wrth bob mynedfa a gaiff ei defnyddio gan gwsmeriaid. Mae'n rhaid i'r sticeri fod mewn lle amlwg lle gall cwsmeriaid eu darllen yn hawdd cyn camu i mewn i fusnes pan fo'r busnes hwnnw ar agor.

Os oes mwy nag un busnes bwyd o fewn yr un adeilad, rhaid iddi fod yn glir pa sticer sy'n berthnasol i'ch busnes chi, ac mae'n rhaid arddangos y sticer hwnnw wrth fynedfa eich busnes bwyd mewn man lle gall cwsmeriaid ei weld.

Bydd yn rhaid i fusnesau sy'n cyflenwi bwyd i fusnesau eraill arddangos eu sticeri hefyd.

RHOI GWYBOD I GWSMERIAID

O dan y Ddeddf, mae'n rhaid i chi ac unrhyw staff perthnasol hefyd roi gwybod i gwsmeriaid, os ydynt yn holi, pa sgôr y mae'r busnes wedi'i chael. Mae hyn yn wir wyneb yn wyneb a dros y ffôn.

CAEL GWARED AR HEN STICER!

Pan na fydd eich sticer hylendid yn ddilys rhagor, mae'n rhaid i chi ei dynnu i lawr a'i ddinistrio. Ni fydd y sticer yn ddilys 21 diwrnod ar ôl i chi gael eich hysbysu am sgôr newydd neu pan fydd gan y busnes berchennog newydd.

APELIO

Gallwch apelio yn erbyn sgôr os nad ydych yn credu ei bod yn adlewyrchiad teg o'r amodau hylendid adeg yr arolygiad, neu os na chafodd meini prawf y sgôr eu rhoi ar waith yn gywir. Mae'n rhaid i chi gyflwyno apêl ysgrifenedig ar y ffurflen apelio safonol,¹ a'i chyflwyno i'r awdurdod lleol o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y cawsoch wybod am eich sgôr. Mae'r manylion am sut i ddod o hyd i'r ffurflen a ble i'w hanfon ar ôl i chi ei llenwi wedi'u nodi yn llythyr yr arolygiad.

Bydd yr apêl yn cael ei hystyried gan un o swyddogion yr awdurdod nad oedd yn rhan o asesu'r sgôr wreiddiol sy'n cael ei hapelio. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a rhoi

gwybod i chi am y canlyniad o fewn 21 diwrnod wedi i'r apêl ddod i law.

Os ydych chi'n apelio, bydd yn rhaid i chi arddangos y sticer perthnasol ar ôl i benderfyniad eich apêl ddod i law.

HAWL I YMATEB

Mae gan fusnesau "hawl i ymateb". Mae'r hawl i ymateb yn caniatáu i weithredwr y busnes bwyd esbonio'r camau a gymerwyd yn dilyn yr arolygiad lle rhoddwyd y sgôr neu i roi gwybodaeth am yr amgylchiadau ar adeg yr arolygiad. Mae'n rhaid cyflwyno'r sylwadau hyn yn ysgrifenedig i'r awdurdod lleol. Mae ffurflen safonol² ar gael ond gallwch chi gyflwyno eich sylwadau mewn unrhyw fformat ysgrifenedig wedi'i nodi'n glir fel sylwadau "hawl i ymateb". Gellir gwneud hyn ar unrhyw adeg tra bo'r sgôr yn ddilys, p'un a wnaed apêl ai peidio. Mae gwybodaeth am bwy i anfon eich "hawl i ymateb" i'w gweld yn llythyr yr arolygiad ac ar-lein³. Gall yr ASB gyhoeddi'r hawl i ymateb ochr yn ochr â'r sgôr berthnasol.

AIL-SGORIO

Gallwch ofyn i'r awdurdod lleol gynnal ymweliad cyn dyddiad yr arolygiad hylendid bwyd nesaf i wirio unrhyw welliannau a rhoi sgôr newydd os yw'n briodol.

1 <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/apelio.doc>

2 <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/.../hawl-i-ymateb.doc>

3 <https://www.food.gov.uk/cy/contactbusinessservicescyflwyno-apel/apelio-yn-erbyn-eich-sgor-hylendid-bwyd>

Mae'n rhaid i chi gyflwyno cais ysgrifenedig ar y ffurflen ailymweliad safonol⁴ gan nodi'r gwelliannau yr ydych chi wedi'u rhoi ar waith. Mae'n rhaid i chi barhau i arddangos eich sticer hylendid presennol, a hynny o'r adeg pan fyddwch chi'n gwneud cais ail-sgorio hyd nes y byddwch yn cael eich hysbysu am y canlyniad.

Bydd yr ymweliad ail-sgorio yn cael ei gynnal o fewn tri mis wedi i'r cais ddod i law, ac ni chewch wybod ymlaen llaw am ddyddiad ac amser yr ymweliad. Er y rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o ymweliadau ail-sgorio yn arwain at well sgôr, mae'n bosibl y byddwch yn cael sgôr is os yw'r safonau wedi gostwng.

Bydd tâl yn cael ei godi am yr ymweliad ail-sgorio a bydd rhagor o fanylion am y costau yn cael eu darparu gan yr awdurdod lleol cyn yr arolygiad.

BUSNESAU TECAWÊ

Mae gofyn i fusnesau sy'n gwerthu bwyd tecawê yn uniongyrchol i'r cyhoedd gyhoeddi datganiad dwyieithog ar rai deunyddiau cyhoeddusrwydd copi caled penodol. Os yw tafflen neu fwydlen tecawê yn dangos bwyd ar werth, y pris a ffordd o archebu bwyd, mae'n rhaid iddi gynnwys datganiad dwyieithog, a hynny mewn man amlwg. Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy.

BUSNESAU NAD YDYNT YN ARDDANGOS EU SGORIAU

Mae peidio ag arddangos sticer dilys yn drosedd.

Gall awdurdodau lleol gymryd camau i gosbi busnesau os nad ydynt yn arddangos eu sticeri, os ydynt yn arddangos sticeri anghywir neu os ydynt yn camarwain cwsmeriaid am eu sgôr hylendid. Gallant ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig i wneud hyn. Os bydd busnes yn cael hysbysiad o'r fath gallant ddewis rhwng talu £200 o fewn 28 diwrnod o'r adeg y caiff y gosb ei dyfarnu, neu dalu cosb lai o £150 os ydynt yn talu o fewn 14 diwrnod. Mae Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 hefyd yn caniatáu ar gyfer erlyn drwy Lys yr Ynadon lle bo angen.

Mae'r rheoliadau newydd ar gyfer busnesau tecawê, a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2016, hefyd yn ei gwneud yn drosedd i beidio ag arddangos y datganiad ar ei ffurf ragnodedig ar ddeunydd hyrwyddo penodedig; neu arddangos sgôr hylendid bwyd anghywir neu ffug, neu beidio ag arddangos graffeg y sgôr ar ei ffurf ragnodedig.

BETH SYDD ANGEN I CHI EI WNEUD:

- Ystyried a oes unrhyw gamau y gallwch eu cymryd i **wella hylendid bwyd** yn eich busnes
- **Arddangos y sticer** ar ôl eich arolygiad nesaf
- Mae'n rhaid i chi ac unrhyw staff perthnasol **roi gwybod i gwsmeriaid** am y sgôr pan fyddant yn holi
- Os ydych chi'n gweithredu busnes tecawê, **dylech gynllunio beth sydd angen i chi ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2016** – fel yr amlinellir yn y daflen hon.

⁴ <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/Ailsgorio%20%28Fersiwn%20Newydd%20Tachwedd%202013%29.doc>

RHAGOR O GYMORTH

I gael rhagor o gyngor ar Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau eraill yn ymwneud â chyfraith bwyd, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol.

